EISTEDDFOD
Y Garreg Las
1-8 Awst 2026

## 152. Parti Cerdd Dant
### Haf

Cainc 'Tannau Tawe', Elfair Jones, *Alaw Tawe* [Cymdeithas Cerdd Dant Cymru] (11222)

**DALIER SYLW: BU NEWID ER CYHOEDDI RHESTR TESTUNAU EISTEDDFOD Y GARREG LAS**
**Pum pennill yn hytrach na chwech sydd bellach, a threfn y gainc fydd 11222**

**Haf**

Mae nodwyddau gwres
yn tyllu'n nes
drwy les y dail ar y coedydd,
gan winio'r llwyth
fesul pwyth
yn esmwyth at ei gilydd,

waeth wedi'r brys
a'r tasgu chwys,
mae llys hamddena'n denu,
daw brawd a chwaer
yn gwmni taer
yn ôl i'r gaer i rannu,

ac i sigl y don
mae anadl y fron
fel y dwylo'n ymdawelu.
Fe ddaeth yr awr
i gysgu'n awr,
mor glyd yw'r wawr yn ei gwely,

nes daw'r storm
a'i melltith
i chwalu'r haidd,
chwalu'r gwenith
a chynnau ofn,
ac fesul briwsionyn bach
mae trachwant
yn dwyn y dorth
a fu unwaith yn porthi pawb,

ac er i'r clwyf dyfu,
mae'n rhaid i ni gredu
nad oes lle yn y ddaear ddofn
i'w wraidd ymgartrefu
a'i ffrwythau aeddfedu:
Daw Trefn sy'n Drech nag Ofn.

Mererid Hopwood